College of Policing

Working together to keep people safe

Mapiau proses ar gyfer dod yn Hyderus o ran Anabledd

Rhagfyr 2022



college.police.uk

© – College of Policing Limited (2022)

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Coleg Anfasnachol f1.2 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i **college.police.uk/non-commercial-college-licence**

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint perthnasol. Mae'n bosibl bod y cyhoeddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus a drwyddedwyd dan y Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 yn **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â ni yn y Coleg ar 0800 4963322 neu e-bostiwch **contactus@college.police.uk**

Crëwyd y ddogfen hon gyda'r nod o wneud y cynnwys yn hygyrch ar gyfer yr amrywiaeth mwyaf eang o bobl, ni waeth beth fo'u hanabledd neu nam. I ofyn i gael y ddogfen hon wedi'i darparu mewn fformat arall, cysylltwch â ni yn y Coleg ar 0800 4963322 neu e-bostiwch **contactus@college.police.uk**

Cynnwys

Mapiau proses ar gyfer dod yn Hyderus o ran Anabledd 4

Cynllun Hyderus o ran Anabledd lefel 2 4

Cynllun Hyderus o ran Anabledd lefel 3 5

Mapiau proses ar gyfer dod yn Hyderus o ran Anabledd

Mae **cynllun Hyderus o ran Anabledd** y llywodraeth yn cefnogi cyflogwyr i wneud y gorau o'r talentau y gall pobl ag anableddau eu cynnig i'r gweithle. Mae tair lefel i'r cynllun. Rhaid i chi gwblhau pob lefel cyn symud ymlaen at y nesaf.

Mae'r mapiau proses hyn yn disgrifio'r camau y dylai heddluoedd eu cymryd i ddod yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd (lefel 2) neu'n Arweinydd (lefel 3).

Cynllun Hyderus o ran Anabledd lefel 2

1. Yr heddlu'n ymrwymo i themâu Hyderus o ran Anabledd lefel 2, sef:
    - cael y bobl gywir ar gyfer eich busnes
    - cadw a datblygu eich pobl
2. Sefydlu gweithgor mewnol i gefnogi datblygiad y cynllun. Dylai aelodau fod yn gynrychiolwyr o adrannau sy'n gallu llywio'r gofynion tystiolaeth

    Cynrychiolwyr posibl:

    - adnoddau dynol
    - tîm dysgu a datblygu
    - tîm gweithredu cadarnhaol
    - rhwydwaith staff anableddau
    - tîm caffael

    Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr. Bydd yr aelodaeth derfynol yn dibynnu ar y gweithgareddau mae eich heddlu'n eu cynnal.
3. Cytuno ar weithdrefnau llywodraethu, adrodd a chymeradwyo ar gyfer dilysu'r cynllun yn fewnol. Cadarnhau trefniadau rheoli a gweinyddu ffeiliau neu ddogfennau.
4. Penderfynu pa weithgareddau bydd eich heddlu yn eu cynnal dan bob thema. Mae dewis o 10 gweithgaredd yn y thema gyntaf a saith gweithgaredd yn yr ail thema. Rhaid i'ch heddlu ymrwymo i o leiaf un gweithgaredd dan bob thema.

5. Y gweithgor yn casglu a choladu tystiolaeth yn defnyddio'r ffurflen hunanasesu. Defnyddiwch **ddolen yr Adran Gwaith a Phensiynau** bob tro, gan fod y templedi'n newid yn aml.

   Bydd y dystiolaeth a gesglir gennych yma hefyd yn rhan o'ch asesiad lefel 3. Dylech ddefnyddio tystiolaeth gadarn yn unig i gefnogi'r gweithgareddau a gynhaliwyd. Peidiwch â chynnwys gweithgaredd arfaethedig nad yw wedi dechrau eto.

6. Cyflwynwch eich tystiolaeth i gael ei dilysu'n fewnol.
7. Ymatebwch i unrhyw sylwadau o'r broses ddilysu - er enghraifft, efallai bod angen tystiolaeth fanylach.
8. Cyhoeddi statws Hyderus o ran Anabledd lefel 2.
9. Parhau i gasglu, diweddaru a monitro tystiolaeth i baratoi ar gyfer Hyderus o ran Anabledd lefel 3.

Cynllun Hyderus o ran Anabledd lefel 3

1. Mae'r themâu ar gyfer lefel 3 yr un rhai a lefel 2, sef:
   - cael y bobl gywir ar gyfer eich busnes
   - cadw a datblygu eich pobl

   Rhaid i'ch heddlu gytuno i'r ymrwymiadau lefel 3 dan y themâu hyn, sydd ychydig y wahanol i ymrwymiadau lefel 2. Rhaid i'ch heddlu ddarparu naratif byr hefyd i ddweud beth mae'n ei wneud a/neu beth fydd yn ei wneud i ddangos ei ymrwymiad fel arweinydd.

2. Parhau gyda'r gweithgor mewnol i sicrhau datblygiad cynllun lefel 3. Dylai aelodau fod yn gynrychiolwyr o adrannau sy'n gallu llywio'r gofynion tystiolaeth.

   Cynrychiolwyr posib:

   - adnoddau dynol
   - tîm dysgu a datblygu
   - tîm gweithredu cadarnhaol
   - rhwydwaith staff anabledd
   - tîm caffael

Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr. Bydd aelodaeth derfynol yn dibynnu ar y gweithgareddau mae eich heddlu'n eu cynnal.

3. Dylai'r gweithdrefnau llywodraethu, adrodd a chymeradwyo fod yr un rhai a'r gweithdrefnau ar gyfer yr hunanasesiad lefel 2. Cynnal y gweithdrefnau ar gyfer rheoli a gweinyddu ffeiliau neu ddogfennau.

   Yn ogystal, bydd angen i'ch heddlu nodi dilysydd allanol i adolygu'r hunanasesiad.

4. Cytuno pa weithgareddau bydd eich heddlu yn eu cynnal o dan bob thema. Mae 10 gweithgaredd i ddewis ohonynt yn y thema gyntaf a chwe gweithgaredd yn yr ail. Rhaid i'ch heddlu ymrwymo i o leiaf un gweithgaredd dan bob thema.

5. Y gweithgor yn parhau i gasglu tystiolaeth yn defnyddio'r ffurflen hunanasesu ar gyfer lefel 3. Defnyddiwch **ddolen yr Adran Gwaith a Phensiynau**, gan fod y templedi'n newid yn aml.

   Dylai hyn adeiladu ar y dystiolaeth a gasglwyd gennych chi ar gyfer eich asesiad lefel 2. Dylech ddefnyddio tystiolaeth gadarn yn unig i gefnogi'r gweithgareddau a gynhaliwyd. Peidiwch â defnyddio gweithgaredd arfaethedig nad yw wedi dechrau eto.

6. Rhaid i'ch heddlu gwblhau'r **fframwaith adrodd gwirfoddol**, sy'n cynnwys data ar anabledd, niwroamrywiaeth ac iechyd meddwl, yn ogystal â gwybodaeth am sut mae pobl yn cael cefnogaeth o fewn yr heddlu. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o fewn 12 mis ar ôl cyflwyno'r asesiad.

7. Sicrhewch fod eich hunanasesiad yn cael ei ddilysu'n allanol. Gall unrhyw sefydliad Hyderus o ran Anabledd lefel 3 ddarparu dilysiad allanol.

8. Dylech ymateb i unrhyw sylwadau o ganlyniad i'r broses ddilysu - er enghraifft, efallai bod angen tystiolaeth fanylach.

9. Cyflwynwch eich tystiolaeth i **wefan Hyderus o ran Anabledd**. Darperir ffurflenni.

10. Parhewch i gasglu, diweddaru a monitro tystiolaeth i baratoi ar gyfer adnewyddiad. Ble y bo'n bosibl, disgwylir i sefydliadau lefel 3 ddilysu

hunanasesiadau lefel 2 gan sefydliadau eraill, ac annog a chefnogi cyflenwyr a darparwyr i ddod yn Hyderus o ran Anabledd hefyd.

Ynglŷn â'r Coleg

Ni yw'r corff proffesiynol ar gyfer y gwasanaeth heddlu yng Nghymru a Lloegr.

Rydym yn cydweithio gyda phawb yn y maes plismona i rannu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar swyddogion a staff i atal trosedd a chadw pobl yn ddiogel.

Ni sy'n gosod y safonau yn y maes plismona i feithrin a chynnal hyder y cyhoedd ac rydym yn helpu'r rheini yn y maes plismona i ddatblygu'r arbenigedd angenrheidiol i gwrdd â'r galw ar y gwasanaeth heddiw a pharatoi ar gyfer heriau'r dyfodol.

college.police.uk